Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 632 (Cy. 118)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) (Diwygio) 2018

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2830) (Cy. 303).

Mae'n dileu'r diffiniadau o MLCSL (Meat and Livestock Commercial Services Limited) a BPEX (i bob pwrpas Gweithrediaeth Moch Prydain) o erthygl 2 ac yn mewnosod diffiniad newydd o AHDB (y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth). Caiff pob cyfeiriad dilynol at MLCSL a BPEX eu disodli gan AHDB.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn gan fod y diwygiadau yn rhai technegol eu natur.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 632 (Cy. 118)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Mai 2018* |
| *Yn dod i rym* | *30 Mehefin 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, y mae'r pwerau a roddir gan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 bellach wedi'u breinio ynddynt(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau hynny:

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Mehefin 2018.

### Diwygio Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2 (dehongli)—

(**1**) 1981 p. 22. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidogion, "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau un o Weinidogion y Goron, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd O.S. 2004/3044. Mae adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), ac Atodlen 11 iddi, yn breinio'r swyddogaethau hyn yng Ngweinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2011/2830 (Cy. 303).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) hepgorer y diffiniad o "BPEX";

(b) hepgorer y diffiniad o "MLCSL"; ac

(c) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "AHDB" ("*AHDB*") yw y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth;"
.

(3) Ym mhob man lle y mae'n ymddangos, yn lle "BPEX" rhodder "AHDB".

(4) Ym mhob man lle y mae'n ymddangos, yn lle "MLCSL" rhodder "AHDB".

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
22 Mai 2018

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing